## What is a Denbigh Plum?

In North Wales, and particularly in the Vale of Clwyd, many people know of the 'Denbigh Plum'. However, the true identity and status of the Denbigh Plum remain uncertain. Are all 'Denbighs' the same? What is the extent of their distribution, and are they threatened?

## How to recognise a Denbigh Plum

The tree is among those plum trees which flower in the second half of April.
The fruit is large ( 4 - 5.5 cm), rounded, orangy-red and strewn with golden dots. There is a shallow groove from the stalk end to fruit tip. The flesh is sweet and juicy with a good depth of flavour. The flesh tends to stick to the stone.
Fruit usually ripen in the second half of August.



### THE DENBIGH PLUM FEAST

Denbigh holds an annual Denbigh Plum Festival in October. This festival is unique to Denbigh town and a great day out for food lovers.

You can taste and buy Denbigh Plum pies, luxury plum chocolates, cakes, jams, chutneys and even more unusual and inventive dishes such as plum bread, plum wine, plum cider and plum vodka!

Find us on

facebook.com/The-Denbigh-Plum

## Origins

The origins of the Denbigh Plum are poorly understood. What little is known suggests that the original tree was growing in Denbigh in about 1784, having either been found there, or perhaps introduced by a local nursery man. Although 'Denbighs' are usually grafted onto other rootstocks, they can grow into reasonable trees on their own roots. They can therefore be grown from suckers so you could give one to a friend!

## Beth yw Eirin Dinbych?

Yng Ngogledd Cymru, ac yn Nyffryn Clwyd yn arbennig, mae llawer o bobl yn gwybod am 'Erin Dinbych'. Ond, mae llawer o bethau yn ansicr am Eirin Dinbych o ran eu statws a sut i'w hadnabod. A yw pob un o Eirin Dinbych yr un fath? Pa mor eang maen nhw wedi eu dosbarthu, ac a ydyn nhw dan fygythiad?

## Sut i adnabod Eirin Dinbych

Mae'r goeden yn un o'r coed eirin hynny sy'n blodeuo yn ail hanner Ebrill. Mae'r ffrwyth yn fawr (4 - 5.5 cm), yn grwn, yn oren-goch ac yn frith o ddotiau euraidd. Mae hollt bas o'r coesyn i flaen y ffrwyth. Mae'r cnawd yn felys a llawn sudd ac yn llawn blas. Mae'r cnawd yn dueddol o lynu at y garreg. Fel arfer bydd y ffrwythau yn aeddfedu yn ail hanner Awst.



### GŴYL EIRIN DINBYCH

Mae Dinbych yn cynnal Gŵyl Eirin flynyddol ym mis Hydref. Mae'r ŵyl yn un unigryw i dref Dinbych ac yn ddiwrnod allan braf i'r rhai sy'n caru bwyd.

Gallwch brofi a phrynu tartenni Eirin Dinbych, siocledi eirin moethus, cacennau, jamiau, siwtni a phrydau hyd yn oed yn fwy anarferol a chreadigol fel bara eirin, gwin eirin, seidr eirin a fodca eirin!

Find us on

facebook.com/The-Denbigh-Plum

## Cefndir

Prin yw'n dealltwriaeth o gefndir Eirin Dinbych. Yr awgrym o'r hyn sy'n hysbys yw bod y goeden wreiddiol yn tyfu yn Ninbych tua 1784, ar ôl iddi naill ai gael ei chanfod yno, neu ei chyflwyno efallai gan weithiwr mewn meithrinfa yn lleol. Er bod Eirin Dinbych yn cael eu himpio ar wreiddiau eraill fel arfer, fe allant dyfu yn goed o faint rhesymol ar eu gwreiddiau eu hunain. Gallwch eu tyfu felly o grachgoed a rhoi un i ffrind!

## Protecting the Denbigh Plum

An application has been made for Europe-wide Protected Geographical Indication (PGI) status. This means that the name 'Denbigh Plum' would have the same protected status as Melton Mowbray pork pies and Stilton cheese.



## How can you help?

An important step for us is to find out where supposed Denbigh Plum trees are located, especially any particularly old or large trees.

If you would like to contribute records of the whereabouts of Denbigh Plum trees or have other information that may be helpful, please submit your records via Cofnod's Online Recording System, www.cofnod.org.uk (use the special recording form for Denbigh Plums).

## Want to grow your own?

Denbigh plums can be eaten straight from the tree. They are also good for cooking and jam making.

Just search online for 'Denbigh Plum tree' for local growers. The tree is partially self-pollinating so a single tree will produce some fruit, but more can be expected if you have another tree that flowers at the same time (second half of April).

Young fruit trees are grafted onto different rootstocks which determine the eventual tree size (10 - 15 feet). Bigger trees are more robust and produce more fruit, but take up more space.

Always choose a bigger rootstock if you need extra anchorage or your soil is poor (very wet, dry or rocky). Small trees cannot compete with grass and weeds. All plums prefer sites protected from late frosts.

## Want to plant an orchard?

There are several local food producers looking for suppliers. Contact valeofclwyddenbighplum@gmail. com for further information.

This flyer was produced by the Denbigh Plum Agrisgôp group, part of the Farming Connect programme which is funded through the Welsh Government Rural Communities - Rural Development Programme 2014- 2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

## Diogelu Eirin Dinbych

Gwnaed cais am statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI). Mae hyn yn golygu y bydd gan yr enw 'Eirin Dinbych' yr un statws â phasteiod porc Melton Mowbray.



## Sut allwch chi helpu?

Un cam pwysig i ni yw cael gwybod ble mae coed Eirin Dinbych yn tyfu, yn arbennig unrhyw goed arbennig o fawr neu hen.

Os hoffech gyfrannu cofnodion am leoliad coed Eirin Dinbych neu os oes gennych wybodaeth arall a allai helpu, cyflwynwch eich cofnodion trwy System Gofnodi Ar-lein Cofnod, www.cofnod.org.uk (defnyddiwch y ffurflen gofnodi arbennig ar gyfer Eirin Dinbych).

## Am dyfu eich eirin eich hun?

Gellir bwyta eirin Dinbych yn syth o'r goeden. Maent hefyd yn dda ar gyfer coginio a gwneud jam.

Chwiliwch ar-lein dan 'Coed Eirin Dinbych' i ddod o hyd i dyfwyr lleol. Mae'r goeden yn hunan beillio i raddau felly bydd un goeden ar ei phen ei hun yn cynhyrchu rhywfaint o ffrwythau, ond gellir disgwyl rhagor os oes gennych goeden arall sy'n blodeuo ar yr un pryd (ail hanner Ebrill).

Mae coed ifanc yn cael eu himpio ar wreiddyn gwahanol sy'n pennu maint y goeden yn y pen draw (10 - 15 troedfedd). Mae coed mwy yn gryfach ac yn cynhyrchu mwy o ffrwythau, ond maen nhw'n cymryd mwy o le.

Dewiswch wreiddyn mwy bob amser os oes arnoch angen gwell angoriad neu os bydd eich pridd yn wael iawn (gwlyb iawn, sych neu ar graig). Ni all coed bach gystadlu gyda glaswellt a chwyn. Mae'n well gan bob coeden eirin safleoedd sydd wedi eu diogelu rhag rhew hwyr.

## Am blannu perllan?

Mae nifer o gynhyrchwyr bwyd lleol yn chwilio am gyflenwyr. Cysylltwch â valeofclwyddenbighplum@gmail. com am ragor o wybodaeth.

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Grwp Agrisgôp Eirin Dinbych, sy'n rhan o raglen Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio yn cael ei ariannu drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.